

CAIS AM DRWYDDED EIDDO DROS DRO: GŴYL RHAGLAN, Y STRYD FAWR, RHAGLAN

Yn unol â Deddf Trwyddedu 2003, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, rhaid i'r Awdurdod Lleol gyhoeddi ar eu gwefan fanylion y cais uchod am gyfnod o ddim llai na 28 diwrnod yn olynol gan ddechrau ar y diwrnod y gwneir y cais. a dderbyniwyd.

Rhaid i'r ymgeisydd arddangos hysbysiad yn y fangre am gyfnod o ddim llai na 28 diwrnod yn olynol gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddwyd y cais i'r awdurdod trwyddedu perthnasol. Rhaid i'r hysbysiad, ym mhob achos, gael ei arddangos yn amlwg yn y fangre y mae'r cais yn ymwneud ag ef neu ynnddi, lle y gellir ei ddarllen yn gyfleus o'r tu allan i'r fangre ac yn achos mangre sy'n gorchuddio arwynebedd o fwy na hanner can metr sgwâr, hysbysiad pellach ar yr un ffurf ac yn ddarostyngedig i'r un gofynion bob hanner can metr ar hyd perimedr allanol yr eiddo sy'n ffinio ag unrhyw briffordd; Rhaid i'r Hysbysiad sydd i'w arddangos ar y safle fod: o faint cyfartal neu fwy nag A4, o liw glas golau, wedi'i argraffu'n ddarllenadwy mewn inc du neu wedi'i deipio mewn du mewn ffont o faint sy'n hafal i neu'n fwy na 16;

Rhaid i'r ymgeisydd hefyd osod Hysbysiad yn y Papur Newydd Lleol o leiaf unwaith o fewn 10 diwrnod gwaith yn cychwyn y diwrnod ar ôl i'r cais gael ei wneud i'r Awdurdod trwyddedu.

Mae Pwyllgor Gŵyl Rhaglan yn gwneud cais am Drwydded Eiddo Dros Dro ar gyfer Stryd Fawr Rhaglan ar gyfer 9fed Mehefin 2024.

Mae'r Drwydded os caiff ei chaniatáu er mwyn galluogi'r Gweithgareddau Canlynol i ddigwydd: Gwerthu Alcohol ac Adloniant a Reoleiddir.

Gall unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r cais hwn wneud hynny drwy ysgrifennu at yr Adran Drwyddedu, Cyngor Sir Fynwy, Canolfan Addysg Gymunedol y Fenni, Hen Ffordd Henffordd, Y Fenni. Gellir cyflwyno sylwadau am 28 diwrnod yn olynol o ddyddiad yr hysbysiad hwn.

Cedwir copi o'r cais am ganiatáu'r drwydded uchod gan yr Adain Drwyddedu. Gellir gweld y cais o ddydd Llun i ddydd Iau 9am i 5pm a dydd Gwener 9am i 4.30pm ac eithrio diwrnodau Gŵyl y Banc yn Hybiau'r Cyngor/Neuadd y Sir, Brynbuga trwy drefniant ymlaen llaw yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad uchod. Mae copi o'r cais hefyd ar gael i'w weld ar-lein www.monmouthshire.gov.uk

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwrriadol neu'n fyrbwyll mewn cysylltiad â chais. Mae'r ddirwy y mae person yn agored iddi ar gollfarn ddiannod am y drosedd yn ddiderfyn.

Dyddiad: 10fed Mai 2024